

Byd-berthyn:

Gweddio am Undod Ynghanol Anghyfiawnder

Yr Wythnos Weddi

am

Undeb Cristnogol

ffoto/photo: Mazur/cbcew.org.uk

Be-Longing: Praying for Unity amidst Injustice
Week of Prayer for Christian Unity

18-25 Ionawr 2023

www.ctbi.org.uk/weckofprayer



Cafodd llofruddio George Floyd gan blismon ym Minneapolis ym mis Mai 2020 ei ddisgrifio fel trobwynt. Roedd sylweddoliad y byddai'r don fyd-eang o undod a ddaeth â phobl allan i'r strydoedd yn ystod pandemig yn ei gwneud hi'n amhosibl anwybyddu canlyniadau anghheuol hiliaeth sefydliadol a'r anghydbwysedd grym sy'n gwadu urddas dynol.

Yn sicr mae mudiad Mae Bywydau Du o Bwys wedi sbarduno trafod anghyfforddus ond angenrheidiol, gan herio'r llaesu dwylo a oedd yn caniatáu i hiliaeth a senoffobia lithro i lawr agendâu arweinwyr gwleidyddol a dinesig fel ei gilydd. Mae hefyd wedi codi cwestiynau ynghylch dibynnu ar ddeddfwriaeth i ddiogelu hawliau pobl ac wedi herio'r methiant i fuddsoddi yn y gwaith dwysach o archwilio ansawdd ein perthynas a'n gilydd o fewn cymdeithas, yr agweddau sy'n llunio ein perthynas a'n gilydd a'r ieithwedd sy'n ei diffinio.

Eto, gyda phob blwyddyn sy'n mynd heibio, gwelwn dystiolaeth barhaus bod sefydliadau pwerus gwladwriaethau, ledled y byd, yn parhau i drin pobl yn wahanol ar sail hil, ethnigrwydd ac agweddau eraill ar hunaniaeth sy'n cael eu gwarchod mewn deddfwriaeth. Mae'r rhai sy'n byw mewn ofn yn dal i aros am y trobwynt.

Er gwaethaf dwysáu ymwybyddiaeth o natur a chanlyniadau hiliaeth yn sgil mudiad Mae Bywydau Du o Bwys erys amharodrwydd i drafod materion grym a braint ac allgáu a dieithrio o fewn cymdeithas. Mae Cristnogion yn dwyn i'r ddeialog hon weledigaeth o gymod wedi'i seilio mewn trugaredd a ffydd, cyfiawnder a heddwch – yno mae gwreiddiau gobaith am iacháu perthynas rhwng pobl.

Ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol eleni cawn ein harwain gan eglwysi Minneapolis wrth i ni ystyried sut y gall gweithio tuag at undod Cristnogol gyfrannu at hyrwyddo cyfiawnder hiliol ar bob lefel o gymdeithas. Trwy'r adnodd hwn, mae grŵp awduron Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon hefyd wedi hoelio ein sylw ar y ffaith ein bod eleni'n coffáu 30 mlynedd ers llofruddio Stephen Lawrence. Mae'r gwaith o adfer gobaith trwy gyfiawnder a wnaed er cof am Stephen yn parhau i ysbrydoli a newid bywydau er gwell.

Wrth i ni uno â Christnogion eraill ledled y byd ar gyfer yr Wythnos Weddi eleni rydym yn gweddïo y bydd ein calonnau'n agored i weld a chlywed y llu o ffyrdd mae hiliaeth yn parhau i ddinistrio bywydau, ac i ddirnad y camau y gallwn eu cymryd fel unigolion a chymunedau i leddfû'r loes ac i adeiladu dyfodol gwell i bawb.

Dr Nicola Brady,

Ysgrifennydd Cyffredinol, Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon

Welcome

The murder of George Floyd by a police officer in Minneapolis in May 2020 was described as a watershed moment. There was a sense that the global wave of solidarity that brought people out onto the streets during a pandemic would make it impossible to ignore the deadly consequences of institutional racism and the power imbalances that deny human dignity.

The Black Lives Matter movement has certainly sparked uncomfortable yet necessary conversations, shaking the complacency that allowed racism and xenophobia to slip down the agendas of political and civic leaders alike. It has also questioned their reliance on legislation to protect people's rights and challenged the failure to invest in the deeper work of examining the quality of our relationships in society, the attitudes that shape them and the language that defines them.

Yet with each passing year we see continued evidence that, across the world, the powerful institutions of the state continue to treat people differently based on race, ethnicity and other facets of identity that are protected in legislation. Those who live in fear are still waiting for their watershed moment.

Despite the heightened awareness of the nature and consequences of racism in the wake of the Black Lives Matter movement there is a persistent resistance to dialogue about issues of power and privilege, exclusion and alienation in society. Christians bring to this dialogue a vision of reconciliation grounded in mercy and faithfulness, justice and peace, from which we draw hope for the healing of relationships.

For this Week of Prayer for Christian Unity we are guided by the churches of Minneapolis as we seek to explore how the work of Christian unity can contribute to the promotion of racial justice across all levels of society. Through this resource, the CTBI writers' group has also focussed our attention on the 30th anniversary of the murder of Stephen Lawrence, which we mark this year. The work of restoring hope through justice undertaken in Stephen's memory continues to inspire and change lives for the better.

As we join with other Christians around the world for this year's Week of Prayer we pray that our hearts will be open to see and hear the many ways in which racism continues to destroy lives, and to discern the steps we can take as individuals and communities to heal the hurts and build a better future for everyone.

**Dr Nicola Brady,
General Secretary, Churches Together in Britain and Ireland**

Dysgwch wneud daioni. Ceisiwch farn (Eseia 1:17)



Ar 22 Ebrill 1993 llofruddiwyd llanc ar stryd yn Llundain wrth iddo aros am fws. Roedd Stephen Lawrence yn ddyn ifanc addawol a oedd yn edrych ymlaen at wireddu ei freuddwyd o ddod yn bensaer. Cafodd ei lofruddio ond am ei fod yn ddu. Byddai ei lofruddio'n cael effaith ddwys ar gymdeithas a theimlwyd hynny ledled pedair cenedl Prydain ac Iwerddon. Amlygodd y digwyddiad hagrwrch hiliaeth, a chafodd hynny ei ddwysáu gan fethiannau systemig yr heddlu i ddod â'r rhai a laddodd Stephen gerbron llys. Yn dilyn ymchwiliad cyhoeddus, daeth Adroddiad MacPherson yn 1998 â'r cysyniad o "Hiliaeth Sefydliadol" i sylw ehangach, yr hiliaeth sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn mewn cymdeithas neu mewn sefydliadau.

Eleni rydym yn nodi 30 mlynedd ers llofruddio Stephen Lawrence a bydd hyn yn ffocws arbennig i lawer sy'n gweithio i sicrhau cymdeithas sydd heb hiliaeth. Tra bo hiliaeth yn bodoli, rydym yn byw mewn cymdeithas ranedig a byd rhanedig, felly yn ystod yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol eleni rydym yn myfyrio ynghylch y modd ma'r rhaniadau hyn yn effeithio ar ein bywyd cyffredin wrth i ni weddio gyda'n gilydd am yr undod y gweddïodd Crist amdano. Ond rydym hefyd yn cydnabod cymaint mae eglwysi wedi cyfrannu at raniadau a rhagfarn o fewn ein sefydliadau ac o fewn cymdeithas. Tra bo hiliaeth ni fydd undod Cristnogol!

Introduction to the theme

Do good; seek justice (Isaiah 1:17)



On 22 April 1993 a teenager was murdered on the streets of London while waiting for a bus. Stephen Lawrence was a promising young man looking forward to fulfilling his dream of becoming an architect. He was murdered simply because he was black. The murder was to have a seismic effect on society and its reverberations were felt across the four nations of Britain and Ireland. It revealed the ugliness of racism, and this was compounded by the systemic failures of the police to bring Stephen's murderers to justice. Following a public inquiry, the Macpherson Report of 1999 brought to wider attention the concept of "Institutional Racism", the racism that is deeply embedded in society or in institutions.

This year we mark the 30th Anniversary of Stephen Lawrence's murder and this will be a major focus for many who work for a society that is free from racism. As long as racism exists, we live in a divided society and a divided world, so during this Week of Prayer for Christian Unity we reflect upon how these divisions impact our shared life as we pray together for the unity for which Christ prayed. But we also acknowledge how much churches have contributed to division and prejudice within our institutions and also society. As long as there is racism there will be no Christian unity!

Mae'r adnoddau eleni wedi'u hysbrydoli gan brofiad ein chwirydd a'n brodyr Cristnogol mewn rhan arall o'r byd sy'n ymgodymu â'r union fater hwn. Maent wedi myfyrio ar sut rydyn ni'n gweddio am undod Cristnogol pan fydd Cristnogion yn rhan o strwythurau anghyfiawn a hiliol. I eglwysi Talaith Minnesota yn yr Unol Daleithiau, mae llofruddio George Floyd a'r hiliaeth sefydliadol a amlygwyd drwy hynny yn gosod y ffocws ar gyfer eu gweddio am undod a chyfiawnder. Maen nhw'n gosod o'n blaenau her y proffwyd Eseia i wneud daioni a cheisio cyfiawnder (Eseia 1:17). Mae'r proffwyd yn ysgrifennu at bobl Jwda ar adeg pan fo crefydd ffurfiol yn ffynnu, mewn diwylliant sy'n ystyried cyfoeth yn fendith o law Duw a thlodi'n gosb. Nid yw ceisio cyfiawnder a gwneud daioni ar agenda naill ai'r offeiriaid yn y Deml na'r rhai mewn awdurdod yn y palas gerllaw.

Mae Eseia yn ceisio deffro cydwybod y bobl i weld beth yw eu gwir sefyllfa. Yn hytrach na gweld eu crefydd yn fendith, mae'n ei hystyried yn gabledd. Mae Eseia yn condemnio'r strwythurau gwleidyddol, cymdeithasol a chrefyddol sy'n hyrwyddo rhagrith pobl sy'n cynnig aberthau i Dduw er yn gormesu'r tlodion. Mae'n llefaru'n gadarn yn erbyn arweinwyr llwgr ac o blaid y rhai a orthrymir. Mae Eseia'n dysgu bod Duw'n gofyn am degwch a chyfiawnder gan bawb, drwy'r amser, ym mhob agwedd ar fywyd.

Mae ein byd heddiw yn adleisio'r heriau roedd Eseia yn eu hwynebu. Mae cyfiawnder, tegwch ac undod yn tarddu o ddyfnder cariad Duw tuag at bob un ohonom. Mae'r gwerthoedd hynny wrth wraidd yr hyn yw Duw a'r modd mae Duw yn disgwyl i ni ymdrin â'n gilydd. Ond eto mae anghyfiawnder a gormes yn parhau. Mae pechod hiliaeth yn amlwg mewn arferion sy'n gosod un grŵp yn erbyn un arall. Pan fydd anghydbwysedd hiliol yn cydfodoli ag anghydbwysedd grym neu'n cael ei gynnal gan hynny, mae rhagfarn hiliol yn symud y tu hwnt i'r unigolyn ac yn gwreiddio yn strwythurau cymdeithas.



This year's resources are inspired by the experience of our Christian sisters and brothers in another part of the world who are wrestling with this very issue. They have reflected on how we pray for Christian unity when Christians are part of unjust and racist structures. For the churches of the US State of Minnesota, the murder of George Floyd and the institutional racism it embodied provide the focus for their prayer for unity and justice. They place before us the prophet Isaiah's challenge to do good and seek justice (Isaiah 1:17). The prophet is writing to the people of Judah at a time when formal religion is thriving, in a culture which understands wealth as blessing from God and poverty as punishment. Seeking justice and doing good is not on the agenda of either the priests in the Temple or the ruling authorities in the neighbouring palace.

Isaiah seeks to awaken the conscience of the people to the reality of their situation. Instead of honouring their religious expression as a blessing, he sees it as a sacrilege. Isaiah denounces the political, social and religious structures which encourage the hypocrisy of offering sacrifices whilst oppressing the poor. He speaks out vigorously against corrupt leaders and in favour of the disadvantaged. Isaiah teaches that God requires righteousness and justice from all people, all the time, in all spheres of life.

Our world today mirrors the challenges that Isaiah confronted. Justice, righteousness and unity originate from God's profound love for each of us. They are at the heart of who God is and how God expects us to be with one another. Yet injustice and oppression continue. The sin of racism is evident in practices that set one racial group over and against another. When accompanied or sustained by imbalances of power, racial prejudice moves beyond the individual to take up residence in the structures of society.





Fel y bobl grefyddol a gafodd eu ceryddu mor chwyn gan y proffwydi Beiblaidd, mae rhai Cristnogion heddiw'n cyfrannu tuag at barhad rhagfarn a gormes ac felly'n hybu rhwygiadau. Mae Cristnogion yn cyfrannu at strwythurau pechadurus sy'n dinoethi eraill o'u hurddas; strwythurau sy'n hyrwyddo ac yn hybu caethwasiaeth, gwladychu, gwahanu pobl ac apartheid. Weithiau o fewn yr Eglwys, nid ydym yn croesawu gwahaniaeth hiliol; pan fyddwn yn methu cydnabod urddas unrhyw un, rydyn ni'n sathru ar urddas pawb.

Mae'r proffwyd Eseia yn galw arnom i ddysgu gwneud daioni ac yn gofyn i ni benderfynu mynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu. Rydym yn cael ein herio i fyfyrion ar ein swyddogaeth ninnau. Mae gweddïo gyda'n gilydd yn ystod yr wythnos hon yn rhoi cyfle i ni fyfyrion ar yr hyn sy'n ein huno ac yn ein galluogi i ymrwymo i wynebu pob achos o orthrwm ac anghyfiawnder. Mae ymrwymo felly'n gofyn i eglwysy gydnabod eu cyfraniad eu hunain at anghyfiawnder hiliol. Rhaid i ni gyfaddef y modd mae ein tawelwch ninnau wedi caniatáu i leisiau eraill glochdar heb gael eu herio. Fel Cristnogion mae'n rhaid i ni fod yn barod i darfu ar bob trefn orthrymus ac eiriol dros gyfiawnder. Mae ein hymrwymiad i'n gilydd yn gofyn i ni hybu cyfiawnder adferol (mishpat). Rhaid i ni godi llais, datgymalu strwythurau anghyfiawn a chreu cymdeithas lle gall pobl fyw mewn rhyddid ac urddas. Rhaid i ni gyd-drafod ac felly gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o brofiad byw pawb. Gyda'n gilydd, mae'n rhaid i ni ymroi i'r frwydr am gyfiawnder mewn cymdeithas – oherwydd ein bod oll yn perthyn i Grist.

Mae Eglwysy Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, drwy'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, yn cydsefyll â'n chwiorydd a'n brodyr yn yr Unol Daleithiau drwy fyfyrion ynghylch hiliaeth o fewn ein cyd-destun ni ein hunain.



Like the religious people so fiercely denounced by the biblical prophets, some Christian believers are complicit in supporting and perpetuating prejudice and oppression, thereby fostering division. Christians involve themselves in structures of sin that strip others of their dignity; structures that enable and promote slavery, colonisation, segregation, apartheid. Sometimes within the Church, we fail to welcome racial difference; when we fail to recognise the dignity of any, we trample on the dignity of all.

The prophet Isaiah calls us to learn to do good and requires us to decide to engage with the issues. We are challenged to engage in self-reflection. Praying together during this week allows us to reflect on what unites us and enables us to commit ourselves to confront all instances of oppression and injustice. Undertaking this commitment requires churches to acknowledge their own complicity in racial injustice. We must confess how our silence has allowed other voices to sound out without challenge. As Christians we must be willing to disrupt systems of oppression and advocate for justice. Our commitment to each other requires us to engage in restorative justice (*mishpat*). We must speak out, dismantle unjust structures and create a society in which people can live with freedom and dignity. We must engage in dialogue and so increase awareness and insight about the lived experience of all people. Together, we must engage in the struggle for justice in society – because we all belong to Christ.

Churches Together in Britain and Ireland, through the Week of Prayer for Christian Unity, stands in solidarity with our sisters and brothers in the United States by reflecting upon racism in our own context.

Diwrnod 1

Wedi'n gwneud ar ddelw Duw

Darlleniadau

Genesis 1:26-28

Datguddiad 7:9-12

Sylwadau

Yn llyfr cyntaf y Beibl, dywedir wrthym ein bod wedi ein creu ar lun a delw Duw, nid dim ond fel unigolion ond fel cyfangorff. Mae'r ddynoliaeth gyfan, pobl o bob hil, diwylliant, iaith a chrefydd, ynghyd yn adlewyrchu delw'r Creawdwr. Golyga hynny fod gwadu'r ddelw honno mewn unrhyw un hil, yn wir mewn unrhyw unigolyn, yn golygu gwadu presenoldeb Duw yn y ddynoliaeth drwyddi draw.

Mae bod yn Gristion yn golygu bod yn ddisgybl. Fe'n gelwir i ddysgu gyda'n gilydd yr hyn mae gwneud daioni yn ei olygu, a phwy a beth yng nghreadigaeth Duw sy'n gofyn ein cydsafiad. Wrth i gymdeithas ddod yn fwyfwy di-hidio am anghenion eraill, mae'n rhaid i ni, fel plant Duw, ddysgu sut i sefyll dros ein brodyr a'n chwiorydd sydd dan ormes drwy lefaru'r gwirionedd wrth y grymus. Ac, os bydd angen, mae'n rhaid i ni fod yn barod i ddadlau achos y rhai

sy'n dioddef fel y gallant fyw mewn heddwch a chyfiawnder. Wrth wneud hynny byddwn bob tro'n gwneud yr hyn sy'n iawn, gan gydnabod bob adeg ddelw Duw ym mhawb ohonom.

Mae ein hymrwymiad i ddileu pechod hiliaeth a chael ein hiacháu o'i effeithiau'n gofyn ein bod yn barod ac yn fodlon bod mewn perthynas a'n cyd-Gristnogion. Bydd hynny'n arwydd o undod ar gyfer yr holl fyd.

Myfyrdod

Dyma sut y byddwn yn eu henwi:

ffoaduriaid,
ceiswyr lloches,
ymfudwyr,
ymfudwyr economaidd,
a mwy o groeso i rai nag i eraill.

Ond gwyddost tithau eu henwau dynol oherwydd dy deulu ydynt, yn dwyn dy ddelw di, yn ddwyfod ddynol.

Gweddi

Fe'n gwnaethost, Dduw,
ar dy ddelw dy hun,
ac yna dod yn un ohonon ni,
yn falch o'r rhai a greaist.

Gwna ninnau'n falch o fod yn rhan o'r
teulu byd-eang hwnnw,
ac yn eiddgar am ddarganfod a dathlu
dy ddelw dithau
ym mhob unigolyn, pob diwylliant,
pob cenedl
y cawn y fraint o ddod i gyswllt â nhw.

Cwestiynau

Ydy hi'n hawdd i chi adnabod delw
Duw ym mhobl eraill? Ynteu a yw
hynny weithiau'n heriol?

Sut mae eich eglwys neu grŵp o
eglwysi'n croesawu rhai sy'n newydd
i'ch cymuned?

Sut allwn ni weld delw Duw mewn
pobl rydym yn ei chael yn anodd
eu caru?

Ewch a Gwnewch

(gweler www.ctbi.org.uk/goanddo)

Neilltuwch amser i ddysgu am ddiwylliant, iaith neu genedl na wyddoch ddim,
neu fawr ddim amdano neu amdani. Dysgwch gymaint ag y gallwch am y
bobl hynny ac, os yw'n bosibl o gwbl, dysgwch yn fwy uniongyrchol oddi wrth
unigolyn neu unigolion o'r grŵp hwnnw.

Cynhwyswch iaith wahanol yn yr addoliad yn eich eglwys yn eich gwasanaeth
nesaf – efallai y bydd yn arbrawf mwy effeithiol fyth os nad yw neb yn eich
cynulleidfa yn ei deall!

Edrychwch yn ôl i'r newyddion o ddeng mlynedd yn ôl i ddod o hyd i grŵp
o bobl a oedd mewn perygl bryd hynny. Darganfyddwch beth yw eu sefyllfa
nawr a'r modd y gallech chi neu eich eglwys neu grŵp o eglwysi eu cefnogi a/
neu ddysgu oddi wrthynt.

Day 1

Made in the image of God

Readings

Genesis 1:26-28

Revelation 7:9-12

Commentary

In the first book of the Bible, we are told that we are made in the image of God, not just individually but corporately. All of humanity, people of all ethnicities, cultures, languages and religions, together represent the image of the Creator. This means that to deny that image in any one race, indeed in any one person, is to reject God's presence in the whole of humanity.

To be Christian means to be a disciple. We are called to learn together what it is to do good, and who and what it is in God's creation that needs us to stand in solidarity.

As society becomes more indifferent to the needs of others, we, as the children of God, must learn to take up the cause of our oppressed brothers and sisters by speaking truth to power and if necessary, plead their case so that they may live in peace with justice. In doing this we will always do the right

thing, will always be recognising God's image in all of us.

Our commitment to eradicate and to be healed of the sin of racism requires us to be prepared and willing to be in relationship with our Christian sisters and brothers. That will be a sign of unity for the whole world.

Reflection

We give them names:
refugees,
asylum seekers,
migrants,
economic migrants,
some more welcome than others.

But you know their human names
because they are your kin,
stamped with your image,
divinely human.

Prayer

You made us, God,
in your own image,
and then became one of us,
proud of those you have made.

Make us proud of being part of that
worldwide family,
and eager to discover and celebrate
your image
in every person, every culture,
every nation
that we are privileged to encounter.

Questions

Do you find it easy to recognise the image of God in other people? Or is that sometimes a challenge?

How does your church or group of churches welcome those new to your community?

How can we see the image of God in people we find difficult to love?

Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Take time to learn about a culture/language/nation of which you know nothing, or very little. Learn as much as you can about those people and, if at all possible, learn more directly from a person or persons from that group.

Include a different language in the worship of your church at your next service – it may be even more effective if no one in your congregation understands it!

Look back in the news from 10 years ago to find a group of people who were endangered at that time. Find out what their situation is now and how you, your church or group of churches could support them and/or learn from them.

Diwrnod 2

Ar iddynt oll fod yn un

Darlleniadau

Eseia 1:12-18

Ioan 17:13-26

Sylwadau

Mae Iesu'n gweddïo y byddwn mewn undod perffaith, yn gweddïo am undod dilys ac anhunanol, nid rhyw hanner undod, ond un a adlewyrchir ym mherson Duw, yn undod y Drindod. Mae undod o'r fath yn heriol, mae'n gofyn am hunan-fyfyrio, am ostyngeddruwydd, am roi heibio grym a rheolaeth, ac am fod yn agored i newid. Ai dyma'r undod rydych chi'n gweddïo amdano yr wythnos hon?

Mae Eseia yn ein hatgoffa o'r rhagrith a all barhau i fodoli yn ein heglwysi - honni caru eraill, ond mewn gwirionedd dim ond yn estyn croeso llawn i'r rhai sy'n debyg i ni. Mae llawer wedi profi poen, gwrthodiad, cam-drin, ac allgáu o fewn yr Eglwys. Mae'n rhaid i fynegiant Cristnogol o undod gynnwys pawb a chynnig iachâd a chyfiawnder. Anaml y gellir cynnig y pethau hynny ar ein pennau'n hunain, ond yn amlach gyda'n gilydd.

Yn hytrach nag offrymu addoliad gwag mae Eseia'n ein hannog: 'Dysgwch wneud daioni. Ceisiwch farn.'

(Eseia 1:17) Mae dysgu gwneud daioni hefyd yn gofyn am fod yn agored i newid. Dyma'r tymor perffaith i Gristnogion fyfyrio nid yn unig ynghylch undod ond ynghylch yr hyn y gallwn ni oll ei wneud gyda'n gilydd i hyrwyddo cyfiawnder hiliol.

Mae ceisio cyfiawnder yn golygu agor drysau i drefn gyfiawn ddoethineb cyfiawn a pharhaus Duw mewn byd sydd yn rhy aml yn ddiarod am ddiodefaint.

Ac eto, mae llawenydd wrth wneud yr hyn sy'n iawn. Daw llawenydd o gadarnhau bod 'Bywydau Duon o Bwys' wrth geisio cyfiawnder anwyliad Duw sydd wedi'u gormesu, eu camreoli a'u camddefnyddio. Mae grym mewn ildio i alwad doethineb am gyfiawnder, ac o wneud hynny fel eglwysi gyda'n gilydd.

Myfyrdod

Peidiwch â mathru fy nghynteddau
mwyach, medd yr Arglwydd,
peidiwch â chyflwyno rhagor o
offrymau i mi.

Ni allaf oddef eich addoliad,
aeth yn faich arnaf.

Gollyngwch eich baich,
rhyddhewch feichiau eraill.
Achubwch, amddiffynnwch ac
eiriolwch fel un bobl,
yn fy enw, ceisiwch gyfiawnder ynghyd.

Gweddi

Dduw Undod,
maddau i ni pan fyddwn yn gaeth
i hunan-les
a chynorthwya ni i dyfu mewn undod
a chyd-ddealltwriaeth
wrth i ni estyn dy gariad a'th
gyfiawnder i bawb.

Cwestiynau

Lle allwch chi godi llais gyda
Christnogion eraill yn erbyn
anghyfiawnder hiliol?

Pa feichiau mae pobl yn eu hysgwyddo
yn eich ardal chi y gallai'r eglwysi eu
hysgwyddo ynghyd?

Lle ydych chi angen cymorth Duw
i adnabod, deall a goresgyn eich
rhagfarnau chi eich hun?

Ewch a Gwnewch

(gweler www.ctbi.org.uk/goanddo)

Ystyriwch roi cynnig ar ddefnyddio teclyn neu ap defosiynol o draddodiad arall. Gweddiwch y bydd Duw yn rhoi i chi ostyngieddrwydd a chalon agored i dderbyn rhywbeth newydd o'r traddodiad hwnnw.

Pa brosiectau cyfiawnder cymdeithasol neu allgymorth lleol sydd ar waith yn eich ardal chi ac sy'n cael eu harwain gan bobl o draddodiad neu gefndir gwahanol i chi? Dysgwch amdanynt a chyfranogi.

Ymunwch â Chylch Gweddi Eciwmenaidd Cyngor Eglwysi'r Byd i weddio gyda phobl o bob cwr o'r byd.

That they may be one

Readings

Isaiah 1:12-18

John 17:13-26

Commentary

Jesus prays that we will be “completely one”, praying for an authentic and selfless unity, one with no half measures, reflected in the person of God, in the unity of the Trinity. Such unity is challenging, it requires self-reflection, humility, a release of power and control, and an openness to change. Is this the unity that you are praying for this week?

Isaiah reminds us of the hypocrisy that can still exist in our churches, claiming a love for others, but really only extending a full welcome to those who are like us. Many have experienced pain, rejection, abuse, and exclusion within the Church. A Christian expression of unity must include everyone and offer healing and justice. This is rarely done in isolation, but more often together.

Instead of offering empty worship Isaiah calls us to “learn to do good; seek justice” (Isaiah 1:17). Learning to do good also requires an openness to change. This is the perfect season for Christians to reflect not just on unity but on the role we can all play together in promoting racial justice.

To seek justice is to create space for God’s just ordering and enduring wisdom in a world all too often unmoved by suffering.

And yet, there is joy in doing what is right. There is joy in affirming that “Black Lives Matter” in the pursuit of justice for God’s oppressed, dominated, and exploited beloved. There is power in giving in to wisdom’s call for justice, and in doing it as a church together.

Reflection

Trample my courts no more, says the
Lord,
cease your offerings to me.
I cannot endure your worship,
it is too heavy to bear.

Put down your burden,
release the load of others.
Rescue, defend, and plead as one,
in my name, seek justice together.

Prayer

God of Unity,
forgive us when we are self-serving
and help us to grow in unity and
understanding
as we extend your love and justice
to all.

Questions

Where can you speak out together
with other Christians against racial
injustice?

What burdens are people carrying
in your area that the churches could
support together?

Where do you need God's help in
recognising, understanding and
overcoming your own prejudice?

Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Consider trying a devotional tool or app from another tradition. Pray that God will give you the humility and openness of heart to be open to receive something new from the tradition.

What social justice or local outreach projects are active in your area and led by those from a different tradition or background to you? Find out and get involved.

Join the World Council of Churches Ecumenical Prayer Cycle praying with people from all around the world.

Diwrnod 3

Gwahaniaeth

Darlleniadau

Luc 5:27-29

Amos 5

Sylwadau

Mae hunaniaeth Gweithgor Minnesota yn gyforiog o'r harmonïau cyfoethog a chyfareddol sy'n adrodd hanes llawer o bobloedd.

'Gall ein cyrff fod mewn cynghanedd â'n hynafiaeth, gan gydnabod yr holl boen, llawenydd, disgleirdeb, blinder, perthynas a mwy oll ynghyd. Rydyn ni'n bwrw'n gwreiddiau yn hanesion y lle rydyn ni'n ei alw'n gartref. A hynny fel dynion, menywod, mamau, tadau, cyfarwyddiaid ac iachawyr.'

Gallwn weld yr amrywiaeth o fewn ein cymunedau os byddwn yn oedi i edrych. Hyd yn oed o fewn ein cynullïadau mae tapestri hardd o brofiad addoli a mynegiant ysbrydol, tapestri sydd wedi'i wau ynghyd o'r boblogaeth frodorol, o'r rhai sydd wedi mewnfudo, neu'r rhai a alltudiwyd ac sydd bellach yn galw'r lle hwn yn gartref iddynt.

Mae Duw wedi dangos i ni'r hyn sy'n dda drwy ein cydgysylltiad. Rydyn ninnau wedi ein bendithio ac rydyn

ni i fendithio eraill. Rydyn ni'n cael ein caru ac rydyn ni i garu eraill. Rydyn ni i weithio cyfiawnder, caru trugaredd a rhodio'n ostyngedig gyda Duw, gyda'n gilydd. Y Ni. Nid Fi. Mae ein perthynas deuluol a dysgeidiaeth Duw yn ein harwain i fod yn gymuned gyda'n gilydd wrth i ni ddysgu a gweithredu fel Ni. Nid Fi.

Felly dylai ein cynullïadau, ein gweddïau, ein hemynyddiaeth, ein celf a'n diwylliant adlewyrchu hynny, a disgleirio â harddwch gwahaniaeth, gan bob tro ymgynraedd at undod cyfiawnder dwyfol Duw.

Mae tapestri yn waith celf hardd, ond os edrychwch chi ar y cefn, fe welwch yr ymylon blêr, y llinynnau carpiog, y cylymau a'r ysgythrau – sut ydyn ni'n dathlu harddwch y tapestri gan hefyd gydnabod y gwaith sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal y prydferthwch, nid fel ffasâd, ond fel canlyniad cydnabod a dathlu gwahaniaeth?

Myfyrdod

Beth yw'r sŵn yna?

Gwyliau gweigion celwydd,
gwasanaethau gwenieithus a gloriâu
gweigion,
sy'n ceisio cuddio gwirionedd arferion
anghyfiawn

a boddi dadwrdd symbalau aflafar gwg
a gwendid.

Dydyn ni ddim fel taen ni'n deall
bod anghytgord yn angheuol.

Ond yng nghanol ein dwndwr,
Cyfyd Duw,
ledled y ddaear hon,
ganeuon cyfiawnder sy'n llifo
fel dyfroedd –
melodiau'n cydblethu mewn
cynghanedd hudolus
sy'n ddigon dwfn i gynnwys ein
gwahaniaethau
a thyndra'n cyd-deithio
i'r fangre hon.

Gweddi

Dduw graslon a chariadus,
ehanga ein gwelediad
fel y bydd yn ddigon eang
i adnabod cymhlethdod hardd
y tapestri y dewisaist ti ei wau

Cwestiynau

Pa mor aml ydy'n ni'n meddwl ac yn
gweithredu fel 'Ni. Nid Fi'?

Sut ydyn ni'n cydnabod ac yn
dathlu gwahaniaethau o fewn ein
cymunedau?

Faint o'r gwaith angenrheidiol ydyn
ni'n ei wneud i greu tapestri hardd yn
ein cymunedau? Pa brosiectau a all
gyfrannu at hynny allwch chi eu nodi,
a pha fylchau sy'n gofyn gweithredu
ydych chi'n sylwi arnynt yn eich ardal/
cymuned chi?

gyda phob un ohonom.

Taclusa ein hymylon blêr
a'n llinynnau llac
a phletha ni ynghyd er dy ogoniant.

Ewch a Gwnewch

(gweler www.ctbi.org.uk/goanddo)

Cyfarfyddwch gyda phobl o gymuned arall i rannu eich storïau â'ch gilydd.

Gwahoddwch bobl o gymuned arall i'ch cynorthwyo i fyfyrrio ynghylch sut y
gallech weithredu fel 'Ni. Nid Fi.'

Nodwch nifer o grwpiau gwahanol o fewn eich cymuned ac ystyriwch sut y
gallech weddio a gweithredu 'gyda' nhw yn hytrach na 'throstyn' nhw.

Day 3

Difference

Readings

Luke 5:27-29

Amos 5

Commentary

The identity of the Minnesota Working Group is immersed in the rich and haunting harmonies that tell the history of many peoples.

“Our bodies can be in tune with the ancestral, while acknowledging all of the pain, joy, brilliance, fatigue, connection and more wrapped up in one. We centre ourselves in the stories of the place we call home. We are men, women, mothers, fathers, storytellers and healers.”

We can recognise the diversity within our communities if we take time to look. Even within our gatherings there is a beautiful tapestry of worship experience and spiritual expression, woven together from the indigenous population, from those who have immigrated, or those who are displaced and who now call this place home.

God has shown us what is good

through our interconnectedness. We are blessed and we are to bless others. We are loved and we are to love others. We are to do justice, love mercy and walk humbly with God, together. We. Not Me. Our kinship and God’s teachings guide us into community together as we learn and act as We. Not Me.

So our gatherings, prayers, hymnody, art and culture should reflect this, and be infused with the beauty of difference, all the while reaching toward the unity of God’s divine justice.

A tapestry is a beautiful work of art, but if you look at the back, you see the messy edges, and frayed ends, the knots and snags – how do we celebrate the beauty of the tapestry while acknowledging the work that is necessary to maintain the beauty, not as a façade, but as a result of recognising and celebrating difference?

Reflection

What is this noise?

These meaningless festivals of falsehood,
litanies of lip service and diatribes of doxologies,
that seek to drown out the reality of

poisonous polity,
that hope to mask the clanging
cymbals of fear and frailty.
We do not seem to understand
that disharmony is our downfall.

But in the midst of our din,
God calls forth
from each corner of this earth,
songs of justice that roll down
like waters –
interwoven melody and haunting
harmony
deep enough to hold our dissonance
and the unresolved tension
of our journeys to this place.

Prayer

Gracious and loving God,
expand our vision
that it may be wide enough
to recognise the beautiful complexity
of the tapestry you chose to weave

Questions

How often do we think and act as
'We. Not me'?

How do we recognise and celebrate
difference in our communities?

How much of the necessary work
are we doing to make a beautiful
tapestry in our communities? What
projects can you identify, or gaps in
provision do you notice in your area/
community?

with each and every one of us.

Gather our frayed edges,
our loose ends
and bind us together for your glory.

Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Meet people from another community and share stories together.

Invite people from another community to help you to reflect on how you can act
as 'We. Not Me'.

Identify some different groups within your community and reflect on how you
might pray and work 'with' them, rather than 'for' them.

Dyddiadau

Yn draddodiadol, cedwir yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol o 18-25 Ionawr (wyth niwrnod Pedr a Phaul). Fodd bynnag, bydd rhai grwpiau yn dewis adegau eraill o'r flwyddyn, yn enwedig oddeutu'r Pentecost, sy'n wyl symbolaidd o safbwynt undod yr eglwys. Penderfynwch chi, gan gymryd sylw o ffactorau lleol. I ganiatáu eu defnyddio ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, nodir y defnyddiau ar gyfer y Diwrnodau â'r rhifau 1-8.

Trefn y Gwasanaeth

Gallwch dynnu allan y drefn gwasanaeth yng nghanol y daflen a'i llungopïo, os mynnwch. Neu gallwch lawrlwytho'r holl adnoddau oddi ar wefan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, ac mae croeso i chi eu golygu a'u haddasu at ddefnydd lleol. Cydnabyddwch, os gwelwch yn dda, mai ffynhonnell y deunydd yw Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, adnoddau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol.

Wal Undod Cristnogol

Os gwelwch yn dda, ychwanegwch fanylion eich digwyddiadau a ffotograffau ohonynt ynghyd â'ch gweddiâu a'ch negeseuon o undod at y 'wal' undod Cristnogol ar www.weekofprayer.org drwy eu rhoi ar Twitter gan ddefnyddio hashnod #wpcuwall. Bydd eich trydариadau yn ymddangos yn awtomatig (ar ôl oedi byr).

Cydnabyddiaeth am ffotograffau

Gallwch ddefnyddio'r rhan fwyaf o'r ffotograffau yn ddi-dâl ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2023 gan eu cydnabod yn briodol, ond nodwch fod angen trwydded ar gyfer y llun ar dudalennau 32/33.

Lun y clawr a t23: Mazur/cbcew.org.uk

t4/5: Unsplash/Igor Rodrigues

t6/7: Unsplash/Stephanie Valencia

t8/9: Unsplash/Sam Balye

t32/33: REUTERS/Ffotograff Stoc Alamy (trwyddedig)

t64: Pixabay/niekverlaan

Trefn Gwasanaeth

Order of Service



Yr Wythnos Weddi

am

Undeb Cristnogol

ffoto/photo: Mazur/cbcew.org.uk

© Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon


churches
together
IN BRITAIN AND IRELAND®

Gall y rhannau o'r gwasanaeth sydd wedi'u pennu ar gyfer Darllenydd gael eu rhannu rhwng nifer o ddarllenwyr. Yn yr un modd gall rhannau sydd wedi'u pennu ar gyfer yr Arweinydd gael eu rhannu ymysg gweinidogion neu arweinwyr o'r gwahanol draddodiadau a chynulleidfaoedd sy'n cymryd rhan yn yr addoliad. Gall yr arweinwyr hynny adrodd testun yr Anfon Allan gyda'i gilydd.

Ymgynnull

Arweinydd Mae Duw yma.

Cynulleidfa Mae'r Ysbryd gyda ni.

Arweinydd Mor rhyfeddol yw'r lle hwn,
oherwydd yma mae cyffyrddiad Duw.

Yng Nghrist, fe'n cesglir o'r ymylon
a'n plethu i'r freuddwyd.

Yma fe deimlwn chwa o'r nefoedd,
lle mae cyfiawnder, cariad a thrugaredd yn cyfarfod.

Yma fe ddatlwn
fendith undod yn Nuw.

Fe gawn ni, a fu unwaith ymhell,
ein dwyn yn agos.

Ac felly fe weddiwn:

Parts of the service assigned to a Reader may be shared among several different readers. Similarly, texts assigned to the Leader may be shared among clergy or leaders from the different traditions and communions participating in the worship. These leaders may pronounce the Sending together.

The Gathering

Leader God is here.

Congregation **The Spirit is with us.**

Leader How great is this place,
for it is the touching-place of God.

In Christ, we are gathered from the edges
and woven into the dream.

Here we feel the hint of heaven,
where justice, love and mercy meet.

Here we celebrate
the blessedness of unity in God.

We, who were once far off,
are brought near.

And so we pray:

Dduw, greawdwr y cyfan,
yn dy gariad, fe wnaethost bob un ohonom;
yn dy ras, rwyt yn ein cynnull ynghyd ar dy ddelw;
yn dy drugaredd, rwyt yn ein gwneud yn ddiorffwys
hyd y canfyddwn ein gorffwys ynot ti.
Aflonydda ni yn ein bodlonrwydd,
tyn ein sylw oddi wrth ein cysuron,
rhybuddia ni rhag ein hymrafaelion,
hyd y delo dy deyrnas ac y gwneler dy ewyllys.

Cynulleidfa **Amen.**

Emyn o Fawl

Gwahoddiad i Gyffesu a Derbyn Maddeuant

Deuwn ynghyd i weddïo am yr undod hwnnw sy'n rhodd gan Grist i'r Eglwys. Deuwn ynghyd yn y gobaith y bydd i'r byd gredu a dod i gymod â Duw.

Cydnabyddwn ein bod yn perthyn i eglwysi a chymunedau sydd wedi eu rhwygo gan anghyfiawnder, yn enwedig pechod hiliaeth, sy'n nacáu gweld delw Duw yn llewyrchu o bob wyneb dynol.

'Hyn a gais yr Arglwydd gennyf: dim ond gwneud beth sy'n iawn, caru teyrngarwch, ac ymostwng i rodio'n ostyngedig gyda'th Dduw.' (Micha 6:8)

Ac felly deuwn mewn edifeirwch a ffydd i gyffesu...

Tawelwch

God, creator of all,
in your love, you have made each one of us
in your grace, you gather us together in your image
in your mercy, you make us restless until we find our
rest in you.

Disturb us in our contentment,
distract us from our comforts
deter us from our conflicts
until your kingdom comes and your will is done.

Congregation Amen.

A Hymn of Praise

Invitation to Confession and Forgiveness

We gather to pray for the unity that is Christ's gift to the Church. We gather in hope that the world might believe and be reconciled to God.

We recognise that we are part of churches and communities that are divided by injustice, especially the sin of racism, which stands contrary to the image of God shining from every human face.

“And what does the Lord require of us but to do justice, and to love kindness, and walk humbly with our God?” (Micah 6:8)

And so we come in penitence and faith to confess...

Silence

Arweinydd Maddau i ni Arglwydd, pan ddeuwn i addoli heb rodio'n ostyngedig gyda thi.

Cynulleidfa **Bydded i ni dderbyn maddeuant.**

Arweinydd Gofynnwn am faddeuant am ran yr eglwysi yn nrygau gwladychiaeth.

Cynulleidfa **Bydded i ni dderbyn maddeuant.**

Arweinydd Gofynnwn am faddeuant am bechodau anghyfiawnder a gormes.

Cynulleidfa **Bydded i ni dderbyn maddeuant.**

Arweinydd Fe'n galwyd i fod yn un. Maddau i ni o'r newydd a chymoda ni â'n gilydd.
Bydded i drugaredd Duw ein rhyddhau oddi wrth ein pechodau i weithredu cyfiawnder, i garu cymwynasgarwch ac i rodio'n ostyngedig gyda'n Duw.

Cynulleidfa **Amen! Diolch a fo i Dduw!**

Gweddi

Dduw pawb,
oherwydd dy gariad rhyfeddol
mae ein pechodau wedi'u golchi ymaith
ac rydym yn rhan o'r gymuned sy'n annwyl gennyf.
Deuwn ger dy fron yn deulu sanctaidd,

Leader Forgive us Lord, when we come to worship without walking humbly before you.

Congregation **May we be forgiven**

Leader We ask forgiveness for the complicity of churches in the evils of colonialism.

Congregation **May we be forgiven**

Leader We ask forgiveness for our sins of injustice and oppression.

Congregation **May we be forgiven**

Leader We have been called to unity. Forgive us anew and reconcile us to one another.
May God's mercy free us from our sins, to do justice, love kindness and walk humbly with our God.

Congregation **Amen! Thanks be to God!**

Prayer

God of all,
because of your great love
our sins have been washed away
and we are part of the beloved community.
We come before you, a holy family,
a rainbow people,

yn bobl yr enfys,
yn unedig o fewn amrywiaeth hardd dy greadigaeth.
Dathlwn dapestri cyfoethog y teulu dynol.
Ymdynghedwn i oresgyn rhagfarn ac ymraniad lle bynnag y'u gwelwn
ac i rodio'n ostyngedig gyda thi.
Amen.

Gweinidogaeth y Gair

Micha 6:6-8

Salm 85:4-11

Arweinydd Cusanodd cyfiawnder a heddwch.

Cynulleidfa Cusanodd cyfiawnder a heddwch.

Darllenydd Adfer ni eto, o Dduw ein hiachawdwriaeth,
a rho heibio dy ddicter tuag atom.
A fyddi'n digio wrthym am byth,
ac yn dal dig atom am genedlaethau?

Oni fyddi'n ein hadfywio eto,
er mwyn i'th bobl lawenhau ynot?
Dangos i ni dy ffyddlondeb O ARGLWYDD,
a rho dy waredigaeth i ni.

Darllenydd Bydded i mi glywed yr hyn a lefara'r Arglwydd DDUW,
oherwydd bydd yn cyhoeddi heddwch
i'w bobl ac i'w ffyddloniaid,
rhag iddynt droi drachefn at ffolineb.

united in the beautiful diversity of your creation.
We celebrate the rich tapestry of the human family.
We commit ourselves to overcome prejudice and disunity wherever
we find it
and to walk humbly in your presence.
Amen

Ministry of the Word

Micah 6:6-8

Psalms 85:5-12

Leader Righteousness and peace have kissed
Congregation **Righteousness and peace have kissed**

Reader Bring us back, O God, our saviour!
Put an end to your grievance against us.
⁶ Will you be angry with us forever?
Will your anger last from age to age?

⁷Will you not restore again our life,
that your people may rejoice in you?
⁸Let us see, O LORD, your mercy,
and grant us your salvation.

Reader ⁹I will hear what the LORD God speaks;
he speaks of peace for his people and his faithful,
and those who turn their hearts to him.



foto/photo: REUTERS/Alamy Stock Photo



Yn wir, y mae ei waredigaeth yn agos at y rhai sy'n
ei ofni,
fel bod gogoniant yn aros yn ein tir.

Darllenydd

Bydd cariad a gwirionedd yn cyfarfod,
a chyfiawnder a heddwch yn cusanu ei gilydd.
Bydd ffyddlondeb yn tarddu o'r ddaear,
a chyfiawnder yn edrych i lawr o'r nefoedd.

Luc 10:25-37

Emyn

Gellir cynnwys Homili neu Bregeth yma

(Ennyd o dawelwch neu emyn)

Cerrig a Straeon

Yma, gwahoddir pawb i adrodd dwy neu ragor o straeon neu dystiolaeth gan bobl sydd wedi herio hiliaeth yn eu bywydau personol neu broffesiynol. Gellir lawrlwytho ffeiliau fideo neu sain o wefan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon yn <https://ctbi.org.uk/weekofprayer>. Os ydych yn defnyddio'r rheini, efallai byddwch am awgrymu bod pobl un ai'n gwranddo â'u llygaid ynghau neu'n canolbwyntio ar groes neu ryw wrthrych penodol arall. Os yn briodol, gellir yn hytrach gyflwyno tystiolaeth leol. Ar ôl pob stori, awgrymir y dylid bod yn dawel am ennyd.

¹⁰His salvation is near for those who fear him,
and his glory will dwell in our land.

Reader

¹¹Merciful love and faithfulness have met;
justice and peace have kissed.

¹²Faithfulness shall spring from the earth,
and justice look down from heaven.

Luke 10:25-37

Hymn

A Homily or Sermon may be offered

(Moment of silence or hymn)

Stones and Stories

At this point everyone is invited to listen to two or more stories or testimonies from people who have challenged racism in their personal or professional life. Videos or sound files can be downloaded from the CTBI website at <https://ctbi.org.uk/weekofprayer>. If you are using these, you may wish to suggest that people listen either with their eyes closed or focused on a crucifix or cross, or some other focal point. If it is appropriate, local testimony can be offered instead. After each story/testimony it is recommended that silence is kept.

Arweinydd Pan ddaethoch i mewn i'r eglwys rhoddwyd carreg i chi. Daliwch y garreg honno yn eich dwylo nawr wrth i ni wrando ar straeon ynghylch anghyfiawnder.

[Gwrandawn ar stori ynghylch y modd mae rhywun wedi profi hiliaeth ac wedi ceisio ei herio.]

Arweinydd Wrth i ni ddal ein cerrig, yn drwm o boen a dioddef ac anghyfiawnder, fe gofiwn.

Deng mlynedd ar hugain yn ôl cafodd llanc yn ei arddegau ym Mhrydain ei lofruddio wrth iddo ddisgwyl bws. Cofiwn ac anrhydeddwn ei rieni, a frwydrodd yn ddiflino dros gyfiawnder. Plygwn ein pennau o gywilydd ynghylch cyn lleied mae cymdeithas wedi camu ymlaen mewn deng mlynedd ar hugain.

[Gwrandawn ar stori ynghylch sut mae rhywun wedi tystio i hiliaeth ac wedi ceisio ei herio.]

Cydsafwn â'n chwirydd a'n brodyr ym Minnesota. Cofiwn George Floyd, a gafodd ei fygu'n araf i farwolaeth mewn enghraifft erchyll o hiliaeth a chamddefnyddio grym. Diolchwn am y llid a'r dicter a adleisiodd ledled y byd ac a gyhoeddodd yn eglur, 'Mae Bywydau Du o Bwys!'

Leader

When you came into the church you were given a stone. Hold that stone now as we listen to stories of injustice.

[We listen to a story of how someone has experienced racism and sought to challenge it]

Leader

As we hold our stones, heavy with pain and suffering and injustice, we remember.

Thirty years ago a British teenager waiting for a bus was murdered. We remember Stephen Lawrence. We remember and honour his parents, who fought tirelessly for justice. We bow our heads in shame that society has moved on so little in thirty years.

[We listen to a story of how someone has witnessed racism and sought to challenge it]

We stand in solidarity with our sisters and brothers in Minnesota. We remember George Floyd, slowly suffocated to death in an appalling example of racism and abuse of power. We give thanks for the outrage and anger which resounded throughout the world and which loudly proclaimed, “Black Lives Matter!”

Anrhydeddwn yr holl bobl a ddioddefodd gynt a'r rhai sy'n dioddef heddiw oherwydd hiliaeth a senoffobia. Ymdawelwn, gan gydnabod na wyddom eu henwau, na chlywir eu straeon ac na weithredir cyfiawnder.

Tawelwch

Gweddiwn y daw o'u dioddefaint hwythau ffrwyth trawsnewid a chyfiawnder.

Yn olaf, cofiwn ac anrhydeddwn bawb y gwyddom amdanynt sy'n dioddef oherwydd rhagfarn, anghyfiawnder, cam-drin, bwlio neu drais o unrhyw fath. Erfyniwn ar Grist y Groes i'w bendithio, i'w nerthu ac i'w harwain i ryddid. Gofynnwn am faddeuant am unrhyw beth a wnaethom, neu na wnaethom, i gyfrannu at eu dioddefaint neu a hwylusodd eu cam-drin.

Arweinydd

Fe'ch gwahoddwn yn awr i ddod â'ch cerrig, yn drwm o boen a dioddefaint, euogrwydd ac edifeirwch, at y groes.

Wrth i'r gynulleidfa gamu ymlaen i osod eu cerrig wrth droed y groes, gwrandawn ar 'Lift Every Voice', Emyr Jiwbil Americanaidd Affricanaidd a gyfansoddwyd gan James Weldon Johnson (1900). Cyfeirir at y gân yn aml fel anthem genedlaethol y bobl dduon yn yr Unol Daleithiau. Gweddi ydyw o ddiolchgarwch am ffyddlondeb ac am ryddhau'r caethion, gan ddyrchafu cri am ryddid a derbyniad ar gyfer pobl Americanaidd Affricanaidd..

<https://www.jamesweldonjohnson.org/lift-every-voice-and-sing>

We honour all those people who are and have been victims of racism and xenophobia. We fall silent, acknowledging that their names are not known, their stories not heard, justice not delivered.

Silence

We pray that their suffering may bring forth the fruit of transformation and justice.

Finally, we remember and honour those we know who are victims of prejudice, injustice, abuse, bullying, or violence of any kind. We ask Christ crucified to bless them, give them strength, lead them to freedom. We ask forgiveness of anything we may have done, or omitted to do, to contribute to their suffering or collude with their abuse.

Leader

We invite you now to bring your stones, heavy with pain and suffering, remorse and repentance to the cross.

As the congregation moves forward to place their stones at the foot of the cross, we listen to 'Lift Every Voice', an African American Jubilee Spiritual which was written by James Weldon Johnson (1900). It is often referred to as the Black national anthem in the United States. The song is a prayer of thanksgiving for faithfulness and freedom for the enslaved, voicing a cry for liberation and affirmation for African American people.

<https://www.jamesweldonjohnson.org/lift-every-voice-and-sing>

Gweddi'r Arglwydd

Gweddi i Gloi

Dduw ar gyfer pawb,
gosodwn ger dy fron
ein cyfranogaeth barod yn nrygioni hiliaeth,
ein hunanfodlonrwydd hawdd yn wyneb anghyfiawnder,
caledwch ein calonnau a thrymder ein heneidiau..
Barna ni nid am y pethau hyn,
ond am y ffordd y gweithredwn
i drawsnewid y byd
i fod yn breswylfa i'th Deyrnas di.
Amen

Emyn i Gloi

Yr Anfon Allan: Bendith Ffransisgaidd

Priodolir i ddilynwyr cynharaf Sant Ffransis

Bydded i Dduw eich bendithio ag anesmwythyd
o glywed atebion hawdd a lled-wirioneddau ac mewn
perthynas arwynebol,
fel y byddwch yn byw yn nyfnder eich calonnau.

Bydded i Dduw eich bendithio â dicter
yn wyneb anghyfiawnder, gormes a chamfanteisio,
fel y bydd i chi weithio dros gyfiawnder, rhyddid a heddwch.

Lord's Prayer

Concluding Prayer

God for all,
we place before you
our willing complicity in the evil of racism,
our ready complacency in the face of injustice,
the hardness of our hearts and the heaviness of our souls.
Judge us, not for these things,
but for the manner in which we act
to transform the world
into the place of your Kingdom.

Amen

Concluding Hymn

The Sending: A Franciscan Benediction

Attributed to the earliest followers of St Francis

May God bless you with discomfort
at easy answers, half-truths, and superficial relationships,
so that you may live deep within your heart.

May God bless you with anger
at injustice, oppression and exploitation of people,
so that you may work for justice, freedom and peace.

Bydded i Dduw eich bendithio â dagrau
yn llifo dros y rhai sy'n dioddef poen, gwrthodiad, newyn a rhyfel,
fel y bydd i chi estyn llaw i'w cysuro
a throi eu loes yn llawenydd.

A bydded i Dduw eich bendithio â digon o ynfydrwydd
i gredu y gallwch wneud gwahaniaeth yn y byd,
fel y gallwch wneud yr hyn y cred eraill na ellir ei wneud
i ddod â chyfiawnder a charedigrwydd i fywydau'n holl blant ac i'r tlodion.

Amen



May God bless you with tears
to shed for those who suffer pain, rejection, hunger, and war,
so that you may reach out your hand to comfort them
and turn their pain into joy.

And may God bless you with enough foolishness
to believe that you can make a difference in the world,
so that you can do what others claim cannot be done
to bring justice and kindness to all our children and the poor.

Amen

Daw'r dyfyniadau Ysgrythurol o'r Beibl Cymraeg Newydd, Argraffiad Diwygiedig,
Hawlfraint © 2004 gan Gymdeithas y Beibl. Defnyddiwyd gyda chaniatâd Cymdeithas
y Beibl. Cedwir pob hawl ledled y byd.

Bible verses from the New Revised Standard Version Bible: Anglicized Edition,
copyright 1989, 1995, Division of Christian Education of the National Council of
the Churches of Christ in the United States of America. Used by permission.
All rights reserved. **Psalm 85** from the Revised Grail Psalms, copyright United States
Conference of Catholic Bishops (USCCB). Used with permission.

Dates

The Week of Prayer for Christian Unity is traditionally observed from 18th to 25th January (the octave of St Peter and St Paul). However, some groups choose other times of the year, particularly around Pentecost which is a symbolic date for the unity of the Church. Do make your own decision, taking local factors into account. To allow for use at any time in the year, the Days material uses the notation 1-8.

Order of service

The order of service in the centre of the pamphlet can be pulled out and photocopied if you wish. Alternatively, all resources can be downloaded from the CTBI website and you are welcome to further edit or adapt them for local use. Please acknowledge the source of material as Churches Together in Britain and Ireland, Week of Prayer for Christian Unity resources.

Christian unity wall

Please add details and photos of your events, prayers and messages of unity to the Christian unity 'wall' at weekofprayer.org by posting to Twitter using the #wpcuwall hashtag. Posts appear automatically (after a slight delay).

Photo credits

Most photos are free to reproduce for use with the Week of Prayer for Christian Unity 2023 with the appropriate acknowledgement, but please note that a license is needed for the photo on pages 32/33.

Cover photo and p23: Mazur/cbcew.org.uk

P4/5: Unsplash/Igor Rodrigues

P6/7: Unsplash/Stephanie Valencia

P8/9: Unsplash/Sam Balye

P32/33: REUTERS/Alamy Stock Photo (licensed)

P64: Pixabay/niekverlaan

Diwrnod 4

Galarnadu

Darlleniadau

Salm 22:1-5

Mathew 27:45-50

Sylwadau

Mae galarnadu yn gofyn i ni edrych a gweld y gwirionedd, yn wir, weithiau mae'n mynnu ein bod yn gwneud hynny. Edrychodd merch ifanc a gweld dagrau'r gorthrymedig. Cafodd y fideo a recordiodd ar ei ffôn o lofruddiaeth George Floyd ym mis Mai 2020 ei wyllo ledled y byd, gan ennyn llid cysegredig wrth i bobl weld drostynt eu hunain, a gorfod cydnabod hynny o'r diwedd, yr hyn mae Americanwyr Affricanaidd wedi'i brofi ers canrifoedd, sef eu gorthrymu gan gyfundrefnau gormesol yng ngŵydd tystion breintiedig dall.

Yn y Deyrnas Unedig, mae dynion croenddu rhwng 18 a 25 mlwydd oed bum gwaith yn fwy tebygol o gael eu stopio a'u chwilio gan yr heddlu ac mae menywod croenddu bedair gwaith yn fwy tebygol o farw wrth eni plentyn. Mae gennym lawer i alarnadu amdano.

Mae'r ddau ddarlleniad o'r Beibl ar gyfer heddiw yn sôn am alarnadu. Mae Iesu, a Dafydd, y salmydd llym ei onestrwydd, yn gosod yr esiamp hon i ni o beth i'w wneud pan ydyn ni mewn poen. Mae 'Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael?' yn gri llawn ing ar ddechrau Salm 22 a adleisir gan Iesu ei hun ar y groes yn Mathew 27.

Nid oes ymgais i guddio ing y boen.

Mae'n amrwd a gonest.

Gwaith caled yw galarnadu. Mae'n cymdeithas heddiw am i ni garlamu tuag at bositifrwydd a buddugoliaeth. Beth mae'n ei olygu i wir alarnadu? Cofleidio dioddefaint. Mae galarnadu yn mynnu ein bod yn agored i ddiodeffaint, mae'n mynnu gan bob un ohonom nad ydym bellach yn anwybyddu'r boen.

Myfyrdod

'Protest yw galarnadu sydd mor ddofn fel bod rhaid iddi droi'n weddi, oherwydd Duw yn unig a all ennyn y gobaith y bydd cyfiawnder yn fuddugol ac y bydd y dyfodol yn wahanol.'

Rachel's Cry: Prayer of Lament and Rebirth of Hope, Kathleen D Bilman a Daniel L Migliore, The Pilgrim Press 1999

Gweddi

Dduw cyfiawnder a gras,
iachâ fy nallineb
fel y gallaf weld o ddifrif y gorthrwm
sydd o'm cwmpas,
a rho i mi'r dewrder nid yn unig
i'w enwi,

Cwestiynau

Sut ydych chi wedi ymwneud â galarnadu?

Ym mha ffyrdd mae pobl sydd ar yr ymylon yn eich cymuned chi yn dioddef poen?

Pa effaith mae'n ei gael arnoch chi pan fyddwch yn sylwi ar loes pobl mewn rhannau eraill o'r byd, er enghraifft, yn dilyn ymosodiad treisgar neu drychineb naturiol?

ond i frwydro yn ei erbyn gan gydsefyll â'r rhai a ormesir, tystio i'w dioddefaint a chynnig iddynt fy nhrugaredd.

Ewch a Gwnewch

(gweler www.ctbi.org.uk/goanddo)

Eisteddwch a myfyriwch, gan alarnadu dros y dioddefaint rydych chi wedi ei weld yn eich cymuned (pan fyddwch yn teimlo'n anghyfforddus, arhoswch ychydig yn hwy).

At bwy mae angen i chi nesáu atynt i ymdeimlo â'u poen?

Ymgysylltwch â rhai o'r bobl sydd ar yr ymylon yn eich cymuned i ddysgu am eu naratif hwythau o hanes a'i ganlyniadau. Pa gamau allwch chi eu cymryd i fod yn un sy'n adrodd y gwir am hanes?

Day 4

Lament

Readings

Psalm 22:1-5

Matthew 27:45-50

Commentary

Lament requires us, sometimes even demands us, to really look and see. A young woman looked and saw the tears of the oppressed. The video she shot on her phone of the murder of George Floyd in May 2020 was seen all around the world and unleashed a holy rage as people witnessed, and finally acknowledged, what African Americans have experienced for centuries: subjugation by oppressive systems in the midst of privileged blind bystanders.

In the UK, black men between 18 and 25 years are five times more likely to be stopped and searched by the police and black women are four times more likely to die during childbirth. We have much to lament.

The two passages today speak of

lament. Jesus, and David, the brutally honest psalmist, set this example for us of what to do when we're in pain.

"My God, my God, why have you abandoned me?" is a pain-filled cry at the very beginning of Psalm 22 that is mirrored by Jesus himself on the cross in Matthew 27.

The pain is not sanitised and polished for us.

It is raw and honest.

Lament is a hard practice to embrace. Our society wants us to rush towards positivity and victory. What does it mean to truly lament? To sit with the pain. Lament demands that we open ourselves, it demands from all of us, that we no longer ignore the pain.

Reflection

“Lament is a protest so deep that it must become a prayer, for only God can provide needed hope that justice will prevail and that the future will be different.”

Rachel's Cry: Prayer of Lament and Rebirth of Hope, Kathleen D Bilman and Daniel L Migliore, The Pilgrim Press 1999

Prayer

God of justice and of grace,
remove the scales from my eyes so
I can truly see the oppression
around me,
and give me courage not only to
name it,
but to fight it while providing
authentic presence,
witness, and compassion to the
oppressed.

Questions

How have you been involved in the practice of lament?

In what ways are marginalised groups in your community experiencing pain?

How are you affected when you observe people's grief in other parts of the world, for example in the aftermath of a violent attack or a natural disaster?

Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Sit and reflect, lament the pain you have noticed in your community (when it gets uncomfortable, stay for a while longer).

Who do you need to move closer to in order to hear their pain?

Connect with some people on the margins in your community to learn about their narrative of history and its consequences. What steps can you take to be a truth-teller of history?

Diwrnod 5

Dicter Sanctaidd

Darlleniadau

2 Samuel 12:1-12

Marc 11:15-17

Sylwadau

Yn y darlleniadau heddiw, mae Dafydd a Iesu yn arddangos dicter sanctaidd drwy wrthsefyll yn gadarn ddig yn erbyn y sefyllfa o'u blaenau. Drwy gydol yr Ysgrythurau cawn ein hatgoffa y gall anghyfiawnder ysgogi emosiynau cryf, dicter a hyd yn oed ymatebion treisgar. Gall y rheini fod yn ddwysach eto pan fydd pobl wedi cael eu gorfodi i gadw'n dawel.

Drwy gydol hanes rydym wedi gweld gormeswyr yn galw ar bobl a wthiwyd i'r ymylon i wenu a bod yn hwyliog, i ganu caneuon ynghylch gorffennol dedwydd. P'un a fu hynny mewn sioeau cerddorion duon, neu ddawnsiau Geisha, neu sioeau cowbois ac Indiaid y Gorllewin Gwyllt, mae'r gormeswyr wedi mynnu bod y gorthrymedig yn perfformio'n hapus er mwyn sicrhau eu goroesiad eu hunain. Mae eu neges mor syml ag y mae'n greulon: ni chaiff eich caneuon, eich seremonïau, eich hunaniaeth ddiwylliannol, y pethau sy'n eich gwneud chi'n gysegredig unigryw, ond eu caniatáu gyhyd â'u bod yn ateb ein dibenion ninnau.

Hyd yn oed pan fydd dioddefwyr

gorthrwm yn cael eu hannog i adrodd eu straeon maen nhw'n aml yn gweld bod pobl ond yn fodlon gwrandao ar eu poen a'u tristwch, ond yn cilio pan maent yn mynegi galwadau dig am newid.

Meddai Martin Luther King: '... yn y pen draw, terfysg yw iaith y rhai na chawsant eu clywed... mae hafau llawn terfysgoedd ein cenedl yn cael eu hachosi gan aeafau ein cenedl o oedi [gweithredu cyfiawnder]'. Deallodd yntau mai'r llwybr at wir heddwch yw gwella'r berthynas rhwng pobl drwy roi cyfiawnder ar waith, gan fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n cadw pobl rhag teimlo eu bod wedi'u cynnwys yn aelodau llawn o'r gymuned.

Ydyn ni wir yn barod i wrando ar brofiadau'r rhai sydd wedi cael eu gorthrymu? Ydyn ni'n derbyn eu dagrau ond yn ymwrthod â'u dicter? Sut gallai Duw fod yn ein galw ni i weithredu i fynd i'r afael â'r dioddefaint sy'n ysgogi'r dicter hwnnw?

Myfyrdod

Bwytaist eu tipyn tamaid,
yfaist o'u cwpan
ac yna ni fu'n edifar gennyf.

Cyn wired â bod yr Arglwydd yn fyw:
dim cyfiawnder, dim heddwch.

Rydym yn llarpio eu hanesion,

yn llygru eu ffynhonnau
ac yna nid yw'n edifar gennym.

Cyn wired â bod yr Arglwydd yn fyw:
dim cyfiawnder, dim heddwch.

Dymchwel ein byrddau,
a'u hailosod gyda lle i bawb,
aflonydda ar ein heisteddfâu esmwyth
a bwrw ni allan
mewn newyn am gyfiawnder,
mewn syched am heddwch.

Cyn wired â bod yr Arglwydd yn fyw:
dim cyfiawnder, dim heddwch.

Gweddi

Dduw'r rhai sydd dan orthrwm, agor
ein llygaid i weld y niwed a wneir hyd
heddiw i'n chwiorydd a'n brodyr yng
Nghrist. Rho i ni'r dewrder i sefyll dros
y rhai y mae taw ar eu lleisiau ac i eiriol

Cwestiynau

Meddyliwch am sefyllfa mewn hanes
pan fu i gymuned allu sianelu ei dicter
yn erbyn anghyfiawnder fel ag i sicrhau
newid gwirioneddol er gwell. Beth allwn
ni ei ddysgu o'r hanes hwnnw?

Pwy allai fod fwyaf ymylol ac mewn
perygl o gael eu hanwybyddu yn
eich cymuned leol? Sut all yr Eglwys
gynorthwyo i sicrhau bod eu llais yn cael
ei glywed?

Sut allech chi gynorthwyo i godi
ymwybyddiaeth heddiw ynghylch
sefyllfa o anghyfiawnder yn y byd?

drostynt, hyd yn oed os yw hynny'n
golygu ildio peth o'n breintiau ninnau er
mwyn rhoi cyfiawnder ar waith.

Ewch a Gnewch

(gweler www.ctbi.org/goanddo)

Chwiliwch am gyfleoedd i gymryd rhan yn rhithiol mewn cynulladau byd-eang i
godi ymwybyddiaeth o sefyllfaoedd lle mae anghyfiawnder ar waith, gan gysylltu â
phobl ar draws ffiniau a rhwng diwylliannau.

Canfyddwch grŵp yn eich ardal leol sy'n gweithio i fynd i'r afael â'r allgáu neu'r
stigma sy'n gallu gadael pobl yn teimlo na chânt eu clywed na'u gweld, a chefnogwch
un o'u digwyddiadau neu fentrau.

Ystyriwch ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, neu rwydweithiau personol eraill,
i rannu enghreifftiau o bob cwr o'r byd o bobl sy'n llefaru'n ddewr wrth herio
anghyfiawnder.

Day 5

Holy rage

Readings

2 Samuel 12:1-12

Mark 11:15-17

Commentary

In the passages today, both David and Jesus demonstrate holy rage through a strong resistance and anger towards the situation in front of them. Throughout Scripture we are reminded that injustice can provoke strong emotions, anger and even violent responses. These can be heightened when people have been deliberately silenced.

Throughout history we have seen a demand that comes from the oppressor to marginalised people to smile and make merry, to sing the songs of a happy past. Whether it was in minstrel shows, or Geisha dances, or Wild West cowboy and Indian shows, the oppressors have demanded that the oppressed perform happily to ensure their own survival. Their message is as simple as it is cruel: your songs, your ceremonies, your cultural identity, that which makes you sacredly unique, is only allowable so long as it serves us.

Even when the victims of oppression are encouraged to tell their stories they often find that people are only willing to listen to their pain and sadness, but draw back when they articulate angry demands for change.

Martin Luther King Jr said: "...in the final analysis, a riot is the language of the unheard.... our nation's summers of riots are caused by our nation's winters of delay [on justice]" He understood that the path to true peace lies in the healing of relationships through the work of justice, addressing the barriers that keep people from feeling included as full members of the community.

Are we truly ready to listen to the experiences of those who have been oppressed? Are we open to their tears but defensive against their anger? How might God be calling us to act to address the suffering that prompts this rage?

Reflection

You ate their meagre fare
you drank from their cup
and then you showed no remorse

As surely as the Lord lives
no justice, no peace

We chew up their stories

we pollute their wells
and then we show no remorse

As surely as the Lord lives
no justice, no peace

Turn our tables
set a place for everyone
disrupt our comfortable seats
drive us out
hungry for justice
thirsting for peace

As surely as the Lord lives
no justice, no peace

Prayer

God of the oppressed, open our eyes to the harm that continues to be inflicted on our siblings in Christ. Give us the courage to stand up and advocate for

Questions

Think of a situation in history where a community was able to channel its rage at injustice into meaningful positive change. What can we learn from this story?

Who might be most marginalised and at risk of being ignored in your local community? How can the Church help amplify their voice?

How could you help raise awareness today about a situation of injustice in the world?

all who are silenced, even if it means releasing some of our own privilege to do justice.

Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Research opportunities to participate virtually in global gatherings to raise awareness of situations of injustice, connecting with people across borders and cultures.

Identify a group in your local area that is working to address the exclusion or stigma that can leave people feeling unheard or unseen, and support one of their events or initiatives.

Consider using social media, or other personal networks, to share examples from around the world of people who are courageously speaking out to challenge injustice.

Diwrnod 6

Rhodio'n ostyngedig ar y ffordd

Darlleniadau

Micha 6:6-8

Philipiaid 2:5-11

Sylwadau

Mae'r Ysgrhythur yn ein hatgoffa na allwn wahanu ein cariad tuag at Dduw oddi wrth ein cariad tuag at eraill. Rydyn ni'n caru Duw pan fyddwn ni'n bwydo'r newynog, yn rhoi i'r sychedig rywbeth i'w yfed, yn croesawu'r dieithryn, yn dilladu'r noeth, yn gofalu am y claf ac yn ymweld â'r carcharor. Pan fyddwn yn ymgeleddu ac yn gwasanaethu 'un o'r lleiaf o'r rhain' rydym yn ymgeleddu ac yn gwasanaethu Crist ei hun.

Ond fe'n gelwir i fynd y tu hwnt i roi neu wasanaethu o safle o rym, lle rydym yn cynnal ein statws uwchlaw'r unigolyn a wasanaethwn. Sut ydyn ni i efelychu Iesu, a ddaeth, er ei fod yn Arglwydd pawb, yn wir yn was i bawb? Beth yw grym, a sut ydyn ni i'w ddefnyddio a'i rannu wrth wneud gwaith Duw?

Mae Duw'n ein galw i barchu cysegredigrwydd ac urddas pob aelod o deulu Duw. Mae gofalu am eraill, eu gwasanaethu a'u caru yn amlygu nid pwy ydyn nhw, ond pwy ydyn ni. Fel Cristnogion, mae'n rhaid i ni fod yn unedig yn ein cyfrifoldeb i garu eraill a gofalu amdanynt, fel mae Duw'n gofalu amdanon ninnau a'n caru. Wrth wneud hynny, rydyn ni'n rhoi ein ffydd gyffredin ar waith drwy ein gweithredoedd mewn gwasanaeth i'r byd ac yn canfod ein gwir alwedigaeth fel gweision y Brenin Tlawd.

Myfyrdod

Eiddot ti yw'r gallu a'r gogoniant. Eto gwelwn dy fawredd mwyaf wrth i ti blygu i wasanaethu.

Greawdwr, rho i ni'r grym i fod yn ddi-rym a gwisg ni ag urddas y gwas sy'n gyfoethog o gariad.

Gweddi

Arglwydd y gallu a'r gogoniant,
daethost er ein mwyn ni yn was
i bawb.

Dangos i ni nerth a gogoniant bod
yn was
a galluoga ni i wasanaethu dy fyd di
yn unol ag anghenion eraill a'n
galluoedd ninnau.

Cwestiynau

Lle yn eich bywyd personol allech chi
fod yn gyfrwng bendith drwy ildio
grym?

Sut allai'r eglwysi yn eich cymuned chi
rannu grym i ddod yn fwy effeithiol
wrth wasanaethu cymdeithas?

Dysgwch am wlad nad oes ganddi
fawr o rym gwleidyddol, ond sydd yn
gallu dysgu llawer i chi.

Ewch a Gwnewch

(gweler www.ctbi.org.uk/goanddo)

Pa rym sydd gennych? Rhowch y grym hwnnw ar waith i wasanaethu pobl eraill.

Darganfyddwch dair ffordd y gallai'r eglwysi yn eich ardal chi wasanaethu eich
cymuned. A gweithredwch ar y pethau hynny!

Cytunwch fel grŵp o eglwysi ar brosiect sy'n grymuso pobl yn lleol, yn
genedlaethol neu'n rhyngwladol, a lluniwch gynllun gweithredu i roi hynny
ar waith.

Day 6

Walking humbly in the way

Readings

Micah 6:6-8

Philippians 2:5-11

Commentary

Scripture reminds us that we cannot separate our love for God from our love for others. We love God when we feed the hungry, give the thirsty something to drink, welcome the stranger, clothe the naked, care for the sick and visit the prisoner. When we care for and serve “one of the least of these,” we are caring for and serving Christ himself.

But we are called to go beyond giving or serving from a position of power, where we maintain our status above the person to whom we are ministering. How are we to emulate Jesus who, though he was Lord of all, became truly the servant of all? What is power, and how are we to use it and to share it in the work of God?

God calls us to honour the sacredness and dignity of each member of God’s

family. Caring for, serving and loving others reveals not who they are, but who we are. As Christians, we must be unified in our responsibility to love and care for others, as we are cared for and loved by God. In so doing, we live out our shared faith through our actions in service to the world and we find our true calling as servants of the Servant King.

Reflection

Yours are the power and the glory.
Yet we see your greatest greatness
when you stoop to serve.

Creator, give us the power
to be powerless
and bestow on us the dignity
of the servant rich in love.

Prayer

Lord of the power and the glory,
you became for us the servant of all.
Show us the power and the glory
of servanthood
and enable us to minister to
your world
according to its needs and our abilities.

Questions

Where in your personal life could you bring blessing by yielding power?

How could the churches in your community share power to become more effective in service?

Find out about a country which has little political power, but which has much to teach you.

Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

What power do you have? Put that power to use for the service of others.

Find three ways in which the churches in your area could serve your community. And act on those things!

Agree as a group of churches on a project that empowers people locally, nationally or internationally, and form an action plan to put that into practice.

Diwrnod 7

Gweithredu

Darllenïadau

Mathew 5:1-8

Job 5:1-16

Sylwadau

Mae adroddiad Mathew o'r Gwynfydau yn dechrau gyda Iesu yn gweld y tyrfaoedd. Yn y dorf honno mae'n rhaid ei fod wedi gweld rhai a oedd yn dangnefeddwyr, rhai a oedd yn dlodion yn yr ysbryd, rhai pur eu calon, rhai a oedd yn galaru a rhai a oedd yn newynu am gyfiawnder. Yn y Gwynfydau nid yn unig mae Iesu'n enwi brwydrau pobl, mae'n enwi'r hyn a fyddan nhw: plant Duw ac etifeddion Teyrnas Nefoedd.

Credai Howard Thurman, diwinydd Americanaidd Affricanaidd ac ymgynghorydd ysbrydol i'r Parchedig Ddoethor Martin Luther King, fod 'y grefydd a oedd wrth galon Iesu'n cynhyrchu'r math o fywyd iddo yntau sy'n uniaethu â'r gorthrymedig, y gwrthodedig, y toredig a'r amddifad yn y byd'. Eto i gyd, credai Thurman hefyd: 'Ni ellir gwadu bod tuedd y mudiad Cristnogol yn rhy aml wedi bod tuag at y cryf a'r grymus ac yn erbyn y gwan a'r gorthrymedig – hynny, er gwaethaf yr efengyl'.

Os byddwn yn gwrando'n ddigon astud, byddwn yn clywed amrywiaeth o leisiau yn llefain dan bwysau gormes. Mae angen gweithredu heddiw i ddod â chariad, gobaith, cyfiawnder a rhyddid

i ni ac i eraill yn y dyfodol. Mae gormes o unrhyw fath yn mynnu bod pob un ohonom yn dewis gweithredu er mwyn dileu'r anghyfiawnder(au) sy'n rhwygo'n calonnau.

Mewn gweddi, daw ein calonnau i guro mewn cynghanedd â chalon Duw, i garu'r hyn mae Duw'n ei garu ac i garu fel mae Duw'n caru. Mae gweddi ddilys felly'n ein cydgyssylltu ac yn ein huno – y tu hwnt i'n rhaniadau – i garu'r hyn mae Duw'n ei garu a'r bobl mae Duw'n eu caru yn y ffordd mae Duw'n caru, ac i fynegi'r cariad hwnnw yn ein gweithredoedd.

Gweithiwn gyda'n gilydd gyda Duw yn ein gobaith a'n hymrwymiad i gau ceg anghyfiawnder a dileu gormes ym mhob rhan o'n cymdeithas.

Myfyrdod

Fe'ch gwelaf chi yna,
Chi – y rhai gwynfydedig,
Chi – y tlodion yn yr ysbryd,
Chi – y galarwyr, y rhai addfwyn a'r
rhai trugarog.

Gwelaf y newyn yn eich llygaid.
A yw cyfiawnder yn ddigon i'ch disychedu,
fel y glaw yn disgyn ar y ddaear?

Cawsoch ddigon ar gynllwynion
y cyfrwys,
a llond bol o ddoethineb ffug y
rhai ystrywgar.

Gyda chalonnau pur ac unedig
fe drowch i edrych tuag at achos Duw –

dyrchafu'r rhai a ystyrir yn ddistadl,
dwyn i ddiogelwch y rhai sydd ar fin cael
eu sathru
gan draed trahaus tresmaswyr,
neu eu trywanu gan eiriau llawn trais yn
eiddgar i ddilorni a bychanu.

Cau geg anghyfiawnder, O Dduw,
dymchwel gadarnleoedd y rhai sy'n
crafangu am rym
a rho i ni'r awydd a'r nerth
i ailadeiladu teyrnas
lle bydd cysur i bawb a glwyfwyd,
lle rhennir yr etifeddiaeth rhwng pawb,
lle curir cleddyfau a thariannau
yn offer ar gyfer hau heddwch a chymod,
lle mae iachâd yn hollbresennol
a genau'n offrymu ynghyd gerddi bendith
a gobaith.

Gweddi

Dduw cyfiawnder,
grymusa ni i fod yn gyfryngau dy ras
a'th drugaredd.
Bendithia ni â'r dewrder i ildio ein grym
ein hunain.

Ewch a Gwnewch

(gweler www.ctbi.org.uk/goanddo)

Rhowch gynnig ar wirfoddoli gyda chymdeithas gymunedol leol.

Lle ydych chi'n gweld pobl yn cael eu rhwystro rhag gweithredu drostynt eu hunain o fewn eich cymuned leol? Ymchwiliwch i ffyrdd o weithredu sy'n codi ymwybyddiaeth o'r sefyllfaoedd hynny.

Ym maes datblygiad rhyngwladol cydnabyddir yn gynyddol yr angen i fynd i'r afael â gwaddol anghyfiawnder ac ecsploetio ac adfer i gymunedau sydd ar yr ymylon y grym i wneud penderfyniadau ynghylch eu dyfodol eu hunain. Archwiliwch ffyrdd o hybu datblygiad y gwaith hwn drwy eich rhoi a'ch eiriolaeth.

Cwestiynau

Allwch chi feddwl am gyfnod pan oeddech chi'n teimlo'n ddi-rym? Sut fydddech chi wedi hoffi i eraill ymateb?

Meddyliwch am y ffyrdd y gallech chi gael dylanwad yn eich cymuned leol. Sut allech chi ddefnyddio'r dylanwad hwnnw i gynorthwyo'r rhai sy'n teimlo'n ddi-rym?

Ledled y byd mae cymunedau cyfan yn dod yn ddi-rym o ganlyniad i lygredd ac ecsbloetio. Sut allai'r dewisiadau rydyn ni'n eu gwneud yn ein bywydau beunyddiol effeithio ar y sefyllfaoedd hynny?

Bendithia ni â'r gwyleidd-dra i gydsefyll â'r gorthrymedig.

Bendithia ni â'r hygredded i garu ein cymdogion fel y byddem am i eraill ein caru ni.

Day 7

Agency

Readings

Matthew 5:1–8

Job 5:1-16

Commentary

Matthew's account of the Beatitudes begins with Jesus seeing the crowds. In that crowd he must have seen those who were peacemakers, the poor in spirit, the pure in heart, men and women who mourned, and those who hungered for justice. In the Beatitudes Jesus not only names people's struggles, he names what they will be: the children of God and inheritors of the Kingdom of Heaven.

Howard Thurman, African American theologian and spiritual advisor to Rev. Dr. Martin Luther King, Jr., believed, "the religion that Jesus lived produced the kind of life for Him that identifies with the downtrodden, outcast, broken, and disinherited of the world." Yet, Thurman also believed that, "It cannot be denied that too often the weight of the Christian movement has been on the side of the strong and the powerful and against the weak and oppressed – this, despite the gospel."

If we listen hard enough, we will hear a diversity of voices crying out under the weight of oppression. Action is needed today to bring love, hope, justice and liberation for us and others in the future.

Oppression of any kind demands that each of us chooses to engage in order to eradicate the injustice(s) that break our hearts open.

In prayer we align our hearts with the heart of God, to love what God loves and to love as God loves. Prayer with integrity therefore aligns and unites us – beyond our divisions – to love what, whom and how God loves, and to express this love in our actions.

Let us all work together with God in our hope and commitment to shut injustice's mouth and eradicate oppression in all areas of our society.

Reflection

I see you there,
You – blessed ones,
You – poor in spirit,
You – mourners, meek ones and
merciful ones.
I hear your stomachs rumble
with hunger.
Is righteousness enough to satiate
your thirst,
like rain upon the earth?

You have had your fill of the schemes
of crafty ones,
been force fed so-called wisdom by
the wily.

With pure and undivided hearts
you train your eyes upon God's cause –
to lift high the perceived lowly,

to bring to safety any who are in danger
of being trampled
by pride-filled footsteps of trespassers,
or stabbed by weaponised words
hell-bent on cutting down and
dehumanising.

Shut the mouth of injustice, God,
tear down the strongholds of the
power-hungry
and give us the desire and the strength
to rebuild a realm
where all who are wounded are
brought comfort,
where the inheritance is shared by all,
where swords and shields are beaten
into tools for sowing peace
and reconciliation,
where healing abounds
and mouths open to sing stories of
shared blessing and hope.

Prayer

God of justice,
empower us to be agents of your grace
and mercy.

Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Try volunteering for a local community organisation.

Where do you see people being denied agency in your local community? Explore ways to take action that raises awareness.

In the work of international development there is increasing recognition of the need to address the legacy of injustice and exploitation and restore to marginalised communities the power to make decisions about their own future. Explore ways to help further this work through your giving and advocacy.

Questions

Can you think of a time when you felt powerless? How would you have liked others to respond?

Think about the ways you might have influence in your local community. How might you use that influence to help those who feel powerless?

Around the world whole communities find themselves powerless as a result of corruption and exploitation. How might the choices we make in our daily lives impact these situations?

Bless us with the courage to relinquish our power.

Bless us with the humility to stand with the oppressed.

Bless us with the integrity to love our neighbours as we ourselves would seek to be loved.

Diwrnod 8

Adfer gobaith drwy weithio dros gyfiawnder

Darlleniadau

Eseia 40:1-11

Luc 1:46-55

Sylwadau

Wrth fynd i'r afael a'r niwed sy'n cael ei achosi gan anghyfiawnder hiliol, cofleidiwn addewid Duw o gariad a iachâd perthynas. Mae'r Proffwyd Eseia yn llefaru am Dduw yn casglu ynghyd ac yn cysuro pawb a fu ar goll ac sydd wedi dioddef. Yn y Magnificat, mae Mair yn ein hatgoffa nad yw Duw byth yn cefnu arnom ac mai cyflawniad addewid Duw i ni yw gorseddu cyfiawnder.

Mae eleni yn nodi 30 mlynedd ers llofruddio Stephen Lawrence. Dyn ifanc yn a fagwyd yn ne-ddwyrain Llundain ac un gyda breuddwydion mawr am ei ddyfodol oedd Stephen. Terfynwyd ei fywyd byr pan, ar 22 Ebrill 1993, gafodd ei lofruddio mewn ymosodiad hiliol direswm. Gwnaed loes ei deulu a'r gymuned ehangach yn ddwysach gan fethiannau difrifol wrth ymchwilio i'r drosedd honno, methiannau a ddaeth i'r amlwg yn ddiweddarach yn Adroddiad Macpherson. Er cof amdano sefydlwyd ymddiriedolaeth i gefnogi ac i ysbrydoli pobl ifanc i fynnu dyfodol disglair. Meddai mam Stephen, (Y Farwnes) Doreen Lawrence, am y gwaith hwnnw:

'Mae cyfiawnder i Stephen yn ymwneud â phawb, pob un ohonon ni, yn y gymdeithas yn profi cyfiawnder. Mae yna ormod o bobl ifanc o hyd sydd heb ymdeimlad o obaith, sydd jest ddim yn cael y cyfle i fyw eu breuddwydion. Dw i am i'n holl blant a phobl ifanc deimlo eu bod wedi'u hysbrydoli, bod yn hyderus a bod â gobaith wrth edrych tuag at eu dyfodol eu hunain. Rydyn ni wrth y gwaith o adeiladu gobaith, ond mae mwy i'w wneud.'

Mae'n hawdd teimlo'n anobeithiol wrth i ni gael ein hatgoffa dro ar ôl tro ein bod yn byw mewn cymdeithas rwygiedig nad yw'n llwyr gydnabod, parchu na gwarchod urddas a rhyddid dynol pob bod dynol. Mae angen dwys am gyfuno cariad at Dduw, cariad at ein holl deulu dynol a chariad at gyfiawnder er mwyn cynnal gobaith a iachâd. Mae Duw'n ein galw i fyw i gyfeiriad gobaith yn barhaus, gan ymddiried y bydd Duw gyda ni lle rydyn ni ac ar ba bynnag drothwy ydyn ni fel unigolion a chymdeithas – ar drothwy'r hyn a fu a'r hyn sydd, gan ddyheu am yr hyn sydd eto i fod.

Myfyrdod

Mae'r Tad Bryan Massingale, un o brif foesegwyr cymdeithasol ac ysgolheigion Catholig y byd ym maes cyfiawnder hiliol, yn ein hatgoffa am ei obaith a'i her yntau:

'Bodau dynol sy'n llunio bywyd cymdeithasol.

Canlyniad dewisiadau a phenderfyniadau dynol yw'r gymdeithas rydyn ni'n byw ynddi.

Golyga hynny y gall bodau dynol newid pethau.

Er i fodau dynol dorri, rhwygo a gwahanu, gallwn, gyda chymorth Duw, hefyd iacháu, uno ac adfer.

Does dim rhaid i'r hyn sy'n bod nawr barhau i fod.

Yno mae'r gobaith a'r her.'

Gweddi

Greawdwr Dduw,

dysga ni i edrych tuag at i mewn

a chanfod ein sylfaen yn dy ysbryd cariadus

fel y gallwn gamu allan mewn doethineb a dewrder

gan bob tro ddewis llwybr cariad a chyfiawnder.

Cwestiynau

Pobl ifanc, rhai ohonynt yn gysylltiedig â'r Eglwys, oedd yn arwain nifer o'r protestiadau a ddigwyddodd ledled y byd ar ôl ladd George Floyd. Sut gallwn ni ddefnyddio eu hangerdd dros gyfiawnder hiliol i sicrhau newid yn yr Eglwys?

Pa gamau sylweddol ddylai fod wedi digwydd yn dilyn ladd Stephen Lawrence? Pam ydych chi'n meddwl na wnaethon nhw ddigwydd?

Sut wnaethoch chi ymateb i ladd Stephen Lawrence a/neu ladd George Floyd? Sut mae'r trasiediau hyn wedi eich ysgogi i gymryd mwy o ddiddordeb mewn cyfiawnder hiliol?

Ewch a Gwnewch

(gweler www.ctbi.org.uk/goanddo)

Bydd cyfiawnder hiliol ond yn gwreiddio mewn eglwysi os ydyn nhw'n cymryd y mater o ddifrif. Pa newidiadau penodol y gallai eich eglwys chi eu gwneud i ymgysylltu â'r mudiad byd-eang ar gyfer cyfiawnder hiliol?

Mae Sul Cyfiawnder Hiliol yn cael ei nodi'n flynyddol ar yr ail ddydd Sul ym mis Chwefror. Anogwch eich eglwys i dathlu'r diwrnod hwn, sydd wedi ei gysegru ar gyfer brwydro dros gyfiawnder, cydraddoldeb ac urddas yn yr Eglwys ac o fewn gymdeithas.

Roedd Stephen Lawrence eisiau bod yn bensaer. Beth am fentora neu gefnogi unigolyn ifanc fel Stephen i allu gwireddu breuddwydion bywyd.

Day 8

Restoring hope through the work of justice

Readings

Isaiah 40:1-11

Luke 1:46-55

Commentary

In facing up to the harm caused by racial injustice, we hold before us the promise of God's love and the healing of relationships. The Prophet Isaiah speaks of God gathering and comforting all people who have been lost and have experienced suffering. In the Magnificat, Mary reminds us that God never abandons us and that God's promise to us is fulfilled in justice.

This year marks the 30th anniversary of the murder of Stephen Lawrence. Stephen was a young man growing up in south-east London with big dreams for his future. His life was tragically cut short when, on 22 April 1993, he was murdered in an unprovoked racist attack. The pain of his family and the wider community was compounded by serious failings in the investigation of this crime, which were later exposed in the Macpherson Report. In his memory a foundation has been established to support and inspire young people to have a bright future.

Stephen's mother, (Baroness) Doreen Lawrence, says of this work: "Justice for Stephen is about all of us, every one of us, in society having justice. There are still too many young people who do not have a sense of hope, who just don't get the chance to live their dreams. I want all our children and young people to feel inspired, be confident and have hope in their own future. We are building hope, but there is more to do."

It is easy to feel hopeless as we are time and again reminded that we live in a fractured society that does not fully recognise, honour, and protect the human dignity and freedom of all human beings. An alignment of love of God, love of all our human family and love of justice are deeply needed for hope and healing. God calls us to continually live into hope, trusting that God will be with us in the midst of our individual and communal liminal space – on the threshold of what has been and what is, while yearning for what is yet to be.

Reflection

Fr Bryan Massingale, one of the world's leading Catholic social ethicists and scholars in racial justice, reminds us of his hope and challenge:

“Social life is made by human beings. The society we live in is the result of human choices and decisions. This means that human beings can change things. What humans break, divide and separate, we can with God’s help, also heal, unite and restore. What is now does not have to be. Therein lies the hope and the challenge.”

Prayer

Creator God,
please teach us to go inward
to be grounded in your loving spirit
so we can go outward in wisdom
and courage
to always choose the path of love
and justice.

Questions

Many of the global protests that took place after George Floyd’s killing were led by young people, some of whom were connected to the Church. How can we use their ardour for racial justice to bring about change in the Church?

What substantive actions should have taken place after Stephen Lawrence’s killing? Why do you think they did not occur?

How did you respond to the killings of Stephen Lawrence and/or George Floyd? How have these tragedies encouraged you to take a greater interest in racial justice?

Go and do

(see www.ctbi.org.uk/goanddo)

Racial justice will only take root in churches if they take the issue seriously. What tangible changes could your church make to connect to the global movement for racial justice?

Racial Justice Sunday is marked annually on the second Sunday in February. Encourage your church to celebrate this day, which is committed to fighting for justice, equality and dignity in church and society.

Stephen Lawrence wanted to become an architect. Why not mentor or support a teenager like Stephen, so that she or he will be able to realise their dreams.



Yr Wythnos Weddi

am

Undeb Cristnogol

ctbi.org.uk/weekofprayer
weekofprayer.org

Twitter: [#wpcu2023](https://twitter.com/wpcu2023)
[#wpcuwall](https://twitter.com/wpcuwall)

ISBN: 978-0-85169-419-1

Cyhoeddwyd gan

Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon

Interchurch House
35 Lower Marsh
Llundain SE1 7RL
info@ctbi.org.uk,
Ffôn: 0203 794 2288

Elusen gofrestredig rhif 1113299.
Cwmni cyfyngedig trwy warant,
rhif cofrestru 5661787.

Published by

Churches Together in Britain and Ireland

Interchurch House
35 Lower Marsh
London SE1 7RL
info@ctbi.org.uk,
Tel: 0203 794 2288

Registered charity no. 1113299.
Company limited by guarantee,
registered no. 5661787.